# Hysbysiad i fanwerthwyr: Cynwysyddion neu offer cegin plastig sy'n cynnwys bamb?

Mae busnesau wedi cael gwybod na ddylent fod yn gwerthu cynwysyddion nac offer cegin plastig sy'n cynnwys bamb? na deunyddiau eraill sy'n dod o blanhigion, er enghraifft, plisg reis, gwellt gwenith a chywarch (hemp).

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) hefyd yn annog manwerthwyr a busnesau eraill i ymateb i alwad am dystiolaeth, a lansiwyd heddiw, er mwyn helpu i bennu diogelwch hirdymor deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd sy'n cynnwys bamb? a deunyddiau tebyg sy'n dod o blanhigion yn y DU. Hyd nes y bydd y cynhyrchion hyn wedi'u hasesu a'u hawdurdodi'n llawn, ni fyddant yn gallu aros ar y farchnad, a dylid tynnu'r cynhyrchion sydd ar y farchnad ar hyn o bryd yn ôl.

Mae asesiad cychwynnol o'r risgiau a gyflwynir gan blastigau a ddaw i gysylltiad â bwyd sy'n cynnwys bamb? wedi'i gynnal gan y Pwyllgor ar Wenwyndra (COT). Gr?p annibynnol o wyddonwyr yw hwn sy'n rhoi cyngor i'r ASB ac adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth ar faterion sy'n ymwneud â gwenwyndra cemegion.

Penderfynodd y COT, mewn rhai achosion, y gallai presenoldeb bamb? a deunyddiau tebyg sy'n dod o blanhigion mewn deunyddiau plastig arwain at gydrannau plastig, fel fformaldehyd neu felamin, yn cael eu rhyddhau i fwyd neu ddiod, a hynny uwchlaw'r terfyn cyfreithiol. Er ei bod yn annhebygol iawn y byddai'r defnydd cychwynnol o'r cynhyrchion hyn yn arwain at risg i iechyd ar unwaith, mae effeithiau hirdymor defnyddio eitemau o'r fath yn rheolaidd yn parhau i fod yn anhysbys oherwydd diffyg tystiolaeth.

O ganlyniad i'r asesiad cychwynnol hwn, y cyngor rhagofalus i ddefnyddwyr yw na ddylent ddefnyddio cynhyrchion o'r fath hyd nes y gellir cynnal astudiaeth lawn o'r risgiau posib. Disgwylir i'r astudiaeth gael ei chwblhau ar ôl i'r alwad am dystiolaeth ddod i ben, a bydd yn dibynnu ar fusnesau'n darparu'r dystiolaeth angenrheidiol i'r ASB ar ddiogelwch y cynhyrchion hyn.

Dylid cymryd gofal ychwanegol i osgoi defnyddio'r offer neu'r cynwysyddion i fwyta ac yfed bwydydd a diodydd poeth ac asidig, a pheidio â'u rhoi yn y microdon, gan y gallai hyn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd lefelau uwch o gemegion niweidiol yn cael eu rhyddhau.

Mae cynhyrchion a nodir yn aml fel rhai a wneir gan ddefnyddio plastig sy'n cynnwys bamb? a deunyddiau tebyg yn cynnwys cwpanau yfed y gellir eu hailddefnyddio, llestri bwrdd, cyllyll a ffyrc, bocsys bwyd, a byrddau torri. Mae cynhyrchion ychwanegol yn cynnwys platiau, powlenni, a chwpanau gan gynnwys rhai sy'n cael eu marchnata'n benodol fel setiau llestri i fabanod a phlant.

**Dywedodd Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Bwyd yr ASB, Natasha Smith:**
"Ar hyn o bryd, dydyn ni ddim yn gwybod a oes unrhyw bryderon diogelwch o ran defnyddio'r eitemau hyn yn rheolaidd, ond rydym yn gwybod y gallai eu defnyddio gyda bwydydd poeth ac asidig – neu eu rhoi mewn microdon – achosi i lefelau uwch o gemegion gael eu rhyddhau.

"Rydym am i fusnesau roi cymaint o wybodaeth ag y gallant am y cynhyrchion hyn, gan gynnwys manylion ynghylch pa brofion sydd wedi'u cynnal a sut yn union y maent yn cael eu gwneud.

"Bydd yr alwad am dystiolaeth yn galluogi'r ASB i wella ein dealltwriaeth o'r cynhyrchion hyn, yn enwedig o ran sut bydd amrywio'r gymhareb o blastig i ddeunyddiau sy'n dod o blanhigion yn

effeithio ar sefydlogrwydd hirdymor a'r risg yn gyffredinol."

Nid yw cyngor yr ASB yn berthnasol i eitemau a wneir o famb? neu ddeunyddiau sy'n dod o blanhigion yn unig. Yn hytrach, mae'n ymwneud â'r cynhyrchion hynny sy'n defnyddio cyfuniad o blastig a llenwad planhigion. Gofynnir i fanwerthwyr sicrhau nad yw unrhyw gynhyrchion bamb? neu gynhyrchion tebyg sy'n dod o blanhigion sy'n parhau i fod ar werth yn cynnwys unrhyw gydrannau plastig, a gofynnir iddynt sicrhau eu bod yn bodloni'r rheoliadau cenedlaethol perthnasol.

Efallai y bydd yn anodd gwybod a yw cynnyrch wedi'i wneud o ddeunyddiau cyfansawdd bamb? ar ôl iddo gael ei dynnu o'i ddeunydd pecynnu, ond bydd gan y fath gynhyrchion arwyneb llyfn a byddant yn teimlo fel plastig.

Efallai y bydd gan rai cynhyrchion logo adnabyddadwy a fydd yn helpu defnyddwyr i gadarnhau a yw'n un o'r eitemau dan sylw.

Os nad ydych yn sicr, cyngor yr ASB yw peidio â defnyddio'r cynhyrchion nes bod yr asesiad risg llawn wedi'i gwblhau.

Daw galwad am dystiolaeth yr ASB i ben ar 12 Rhagfyr 2023. I gael mwy o fanylion ac i ymateb i'r alwad am dystiolaeth, gweler tudalen we yr ASB.